# Adroddiad Blynyddol
# Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2020

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**

# Cynnwys


1. Cefndir .... 3

2. Cyflwyniad .... 4

3. Cynnydd o ran cyrraedd ein hamcanion yn ystod 2019/2020 .... 5

4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu .... 9

5. Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) .... 10

6. Trefniadau Caffael .... 10

7. Gwybodaeth Cyflogaeth .... 10

8. Cyflogeion ar 31 Mawrth 2020 fesul rhyw a gradd cyflog .... 12

9. Ceisiadau am swyddi .... 12

12. Cyflogeion a adawodd y Cyngor yn 2019/20 .... 15

13. Ymgysylltu ac ymgynghori .... 17

14. Cysylltwch â ni .... 17

## 1. Cefndir

Fel awdurdod, ein nod yw deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gydraddoldeb y mae pobl yn eu hwynebu fel bod pob un yn cael cyfle teg i gyflawni ei botensial. Bwriadwn sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o bopeth yr ydym yn ei wneud a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Ein nod yw datblygu ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a'r dyletswyddau cyffredinol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn gymorth inni ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Ein nod yw dod â chydraddoldeb ac amrywiaeth i mewn i'r brif ffrwd, yn fewnol ac yn allanol.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016, fe wnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a'n hamcanion ar gyfer 2016-2020. Er mwyn gwneud hyn, buom yn adolygu amcanion a chyflawniadau blaenorol a'r hyn a ddysgasom drwy ein gwaith a'n hymgysylltiad â grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol.

Fe wnaethom ymgynghori â'r cyhoedd a grwpiau cydraddoldeb ynglŷn â'r amcanion hyn a rhannodd 101 o bobl eu barn. Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad hwn yma.

Cymeradwywyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan ein Cabinet ar 15 Mawrth 2016 gyda'r saith amcan strategol canlynol ar gyfer 2016-2020:

| Amcan | Yr hyn y gobeithiwn ei gyflawni/cefnogi |
|---|---|
| **Amcan 1:**<br>**Cludiant** | Byddwn yn cynorthwyo i ddarparu rhwydwaith cludiant sy'n hygyrch, yn gost-effeithiol ac yn hollgynhwysol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| **Amcan 2:**<br>**Meithrin cysylltiadau da a chodi ymwybyddiaeth** | Byddwn yn ymroi i hyrwyddo cymdeithas decach yn y fwrdeistref sirol drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r problemau a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchodedig a chynyddu ein hymdrechion i helpu i fynd i'r afael â phroblemau fel troseddau casineb a cham-drin domestig.<br><br>Byddwn hefyd yn gwella'r ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r rheiny sy'n rhannu nodwedd warchodedig. |
| **Amcan 3:**<br>**Ein swyddogaeth fel cyflogwr** | Byddwn yn adeiladu ar ein hymdrechion i fod yn gyflogwr cynhwysol, cefnogol sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb yn ein gweithlu, gan alluogi pob gweithiwr sydd â nodwedd warchodedig i gyflawni ei botensial. |

| | |
|---|---|
| **Amcan 4:**<br>**Iechyd Meddwl** | Bydd ein gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn adeiladu ar ei waith partneriaeth gyda'r trydydd sector (gwirfoddol) i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl. |
| **Amcan 5:**<br>**Plant** | Byddwn yn ymroi i hyrwyddo a chefnogi cyrhaeddiad emosiynol ac addysgol plant yn y fwrdeistref sirol ac yn mynd i'r afael â'r problemau y mae plant yn eu hwynebu megis bwlio. |
| **Amcan 6:**<br>**Hamdden, y celfyddydau a diwylliant** | Byddwn yn cydweithio gyda'n partneriaid i gynorthwyo i alluogi pob aelod o'r gymuned i gael mynediad teg a chyfartal at gyfranogi mewn gwasanaethau chwaraeon a hamdden yn ogystal ag yn y gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol. |
| **Amcan 7:**<br>**Data** | Byddwn yn parhau i ddatblygu systemau i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'n gweithwyr yn ogystal â gwella ein hasesiadau effaith ar gydraddoldeb. |

Yn dilyn hyn, buom yn gweithio gydag amrywiaeth o reolwyr allweddol ar draws yr awdurdod i ddatblygu'r 47 cam gweithredu sy'n dod dan y saith Amcan hyn.

Buom yn ymgynghori â'r cyhoedd a grwpiau cydraddoldeb ynghylch y camau hyn ac fe wnaeth 317 o gyfranogwyr rannu eu barn â ni drwy arolygon a thrwy naw gweithdy ymgysylltu. Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad hwn yma.

Yn dilyn hyn, fe wnaethom ddatblygu ein cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet ar 14 Gorffennaf 2016. Derbyniodd y pwyllgor hwn ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar y cynllun gweithredu ar 7 Hydref 2020 a gellir ei weld yma.

Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch reolwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cymryd yn eu meysydd gwasanaeth. Bydd y tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu (sy'n gyfrifol am agenda cydraddoldebau) yn sicrhau yr adroddir am gynnydd ac y rhoddir diweddariadau yn rheolaidd ym Mhwyllgor Cydraddoldebau Cabinet y Cyngor ac y rhoddir adborth i bartneriaid, grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

## 2. Cyflwyniad

Hwn yw ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar gyfer y cynllun cydraddoldeb strategol hwn.

Er mwyn paratoi'r adroddiad yma, coladwyd data a gasglwyd o'n hadroddiad blynyddol ar ein cynllun gweithredu ym mis Hydref 2020. Mae'r data a ddarparwyd

bryd hynny gan feysydd gwasanaeth a phartneriaid yn rhoi ffordd barhaus i fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion a'n camau gweithredu.

## 3. Cynnydd o ran cyrraedd ein hamcanion yn ystod 2019/2020

Gellir crynhoi'r cynnydd allweddol dan ein saith amcan fel a ganlyn:

### Cludiant

- Cafodd 112 o gyffyrdd eu trin mewn gwahanol leoliadau ledled y fwrdeistref a gosodwyd ymylon palmentydd isel.

- Cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd gan ein tîm gorfodi i ddarganfod y ffeithiau ynglŷn ag ymddygiad ac agweddau gyrwyr wrth gludo teithwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Er na chanfuwyd unrhyw faterion oedd yn destun pryder, caiff yr ymarfer ei gynnal eto i greu darlun llawnach o brofiadau cwsmeriaid.

- Mae rhifau ffôn gweithredwyr bellach yn ymddangos ar y rhestr a gyhoeddir o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

- Mae cerbydau Cludiant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr (BCT) wedi cael eu haddasu'n arbennig ar gyfer teithwyr ag anghenion symudedd ychwanegol. Mae nifer y teithwyr ar wasanaeth Teithwyr Tref BCT yn cynyddu o tua 15% bob blwyddyn.

### Meithrin cysylltiadau da

- Yn ystod 2019/2020 cynhaliwyd sesiynau rheolaidd ynghylch ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cynhaliwyd cyfanswm o 82 o sesiynau lle y gwnaethom ymgysylltu â 1881 o bobl.

- Yn ystod wythnos ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, cynhaliwyd digwyddiadau ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym Mhen-y-bont, Cwm Garw, Cwm Ogwr, Porthcawl, y Pîl, Bracla, Maesteg, Caerau, Pencoed, Sarn, Ynysawdre a Bryntirion.

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi hybu ymgyrchoedd drwy Twitter, Facebook, Instagram a gwefan y Cyngor, gan gynnwys:

    - Pythefnos Gofal Maeth 2019
    - Diwrnod Rhyngwladol y Merched
    - Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y Rhyfel
    - Diwrnod y Lluoedd Arfog
    - Diwrnod Shwmae Sumae
    - Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
    - Diwrnod ymwybyddiaeth Newid Lleoedd

- Camu allan dros Strôc
  - Pride Cymru 2019
  - Gemau Olympage 2019
  - Wythnos ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2019,
  - Ymgyrch y Rhuban Gwyn
  - LGBTQ ac Wythnos Mabwysiadu a Maethu

- Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Ddiwrnod Cofio'r Holocost 2020 â digwyddiad cyhoeddus, a gynhaliwyd yn Theatr Sony, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr. Thema digwyddiad 2020, a ddarperid gan Ymddiriedolaeth Goffa'r Holocost, oedd 'Sefyll Gyda'n Gilydd' a'i nod oedd annog y rhai oedd yn bresennol i sefyll gyda'u ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion i siarad yn erbyn gormes.

- Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd rhwng CLlLC, Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol a'r darparwyr a ffefrir ar gyfer cyflawni prosiectau troseddau casineb, dewiswyd nifer o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar sail dadansoddiad o droseddau casineb a gofnodwyd yn y gymuned, ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal a thrafodaethau gyda swyddogion cyswllt yr ysgolion. Y pum ysgol a nodwyd oedd:

  - Ysgol Brynteg
  - Ysgol Gyfun Bryntirion
  - Coleg Cymunedol y Dderwen
  - Ysgol Maesteg
  - Ysgol Gyfun Pencoed

- Hyd yma mae dros 4,900 o weithwyr wedi cwblhau'r modiwl hyfforddi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Swyddogaeth y Cyngor fel cyflogwr**

- Bu 26 o weithwyr rheng flaen yn bresennol mewn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o LGBTQI a ddarparwyd gan Stonewall.

- Mae'r modiwl e-ddysgu ar Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau i fod ar gael i weithwyr; dilynodd 18 rheolwr yr hyfforddiant hwn yn ystod 2019/20.

- Mae'r cynllun Mynediad i Waith yn cael ei hybu ymysg y gweithwyr i gyd ac mae'n cael ei gynnwys yn y protocol ymsefydlu corfforaethol. Cynorthwyir dechreuwyr newydd i wneud cais yn ôl yr angen.

- Mae'r ystod eang o adnoddau sydd ar gael i weithwyr ac aelodau etholedig drwy'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr a ddarperir gan Care First wedi cael eu hybu'n eang ac yn rheolaidd.

**Iechyd Meddwl**

- Dyma’r flwyddyn gyntaf o weithio mewn rhanbarth newydd a datblygu partneriaethau rhanbarthol newydd gyda’r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau a gweithdai i sefydlu’r modelau cymorth gwasanaeth a’r modelau cymorth gweithredol, sy’n parhau ar draws y gwasanaethau gan gynnwys cymorth i ofalwyr a theuluoedd.

- Ym Mhen-y-bont ar Ogwr bu ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a rhanddeiliaid i ddatblygu a gweithredu’r model gwasanaeth newydd ar gyfer gofalwyr, sy’n canolbwyntio ar lais, dewis a rheolaeth i unigolion.

- Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda’r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth drwy’r MASH ar gyfer plant a’r Pwynt Mynediad Cyffredin i oedolion. Yn y gwasanaeth i oedolion, mae hyn yn cael ei flaenoriaethu drwy’r gronfa drawsnewid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl datblygu’r gwasanaeth hwn ymhellach dros gyfnod estynedig.

- Mae Gwasanaeth Lles Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i ddatblygu yn y fwrdeistref sirol ac mae’r gwasanaeth yn parhau i gefnogi gofalwyr drwy wybodaeth, cyngor a chymorth rhagataliol. Mae gwaith partneriaeth yn parhau ac mae fframwaith perfformiad wrthi’n cael ei ddatblygu.

- Mae’r Cyngor a BAVO yn weithgar yn y rhwydwaith rhagnodi cymdeithasol rhanbarthol ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

**Plant**

- Caiff y wybodaeth ddiweddaraf am ddilyniant a lles teuluoedd o dan raglen Ailsefydlu Ffoaduriaid Syria ei thrafod gyda Swyddog Troseddau Casineb Heddlu De Cymru, Tai Taf a Darlithydd ESOL yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr bob wythnos. Ymgysylltir yn rheolaidd â’r arweinydd cymunedol yn y Mosg lleol, er mwyn helpu i sicrhau lles teuluoedd o Syria sy’n rhan o’r gynulleidfa.

- Mae’r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod Polisi Gwrth-fwlio pob ysgol yn gyfredol, a lle bydd digwyddiadau’n cael eu codi gan aelodau o’r cyhoedd, bydd yn gwneud yn siŵr bod ysgolion wedi gweithredu yn unol â’u polisïau.

- Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi cyflwyno gweithdai mewn ysgolion ledled y sir, gan hyrwyddo neges gwrth-fwlio a gwrth-hiliaeth. Roedd y sesiynau’n cynnwys pecyn adnoddau y gallwn ei rannu ag ysgolion eraill (cyflwyno ar ôl y sesiwn). Roedd y sesiynau’n cynnwys meddwl yn feirniadol, datrys gwrthdaro a rhagfarn anymwybodol.

**Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant**

- Fe wnaeth rhaglenni darganfod ac ar ôl yr ysgol gefnogi 70 o gartrefi gyda phlant/pobl ifanc ag anghenion ychwanegol i fanteisio ar gyfleoedd cymunedol.

- Parhau i dyfu cyfleoedd i oedolion hŷn, gofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia drwy nofio, dawnsio a gweithgareddau creadigol i bobl â dementia. Mae Halo ac Awen yn cefnogi'r rhaglenni hyn.

- Mae Hamdden Halo wedi gweithio gyda rhieni a gofalwyr plant/pobl ifanc ag awtistiaeth ac wedi datblygu rhaglen nofio sy'n ystyriol o awtistiaeth.

- Bu cydweithio rhwng Hamdden Halo a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn deall anghenion lles gofalwyr yn well. Mae Awen wedi cefnogi datblygiad parhaus côr y Gofalwyr a hefyd wedi casglu gwybodaeth am bodlediadau.

- Mae'r rhaglenni egnïol i bobl ifanc, sy'n cael eu rhedeg mewn partneriaeth gydag ysgolion, wedi parhau. Canolbwyntiwyd ar effaith anfantais a rhyw ar gyfranogiad. Datblygwyd modelau newydd sy'n cefnogi merched, gofalwyr ifanc a phlant sy'n derbyn gofal.

- Mae Awen wedi parhau i weithredu cynllun Hynt sy'n darparu mynediad am ddim i ofalwyr.

- Yn dilyn y gostyngiad ym muddsoddiad nofio am ddim Llywodraeth Cymru i bobl dros 60 oed, mae'r cynllun Mynediad at Hamdden wedi darparu mynediad parhaus cost isel i ystod ehangach o weithgareddau. Mae oddeutu 400 o oedolion hŷn wedi manteisio ar gynnig sy'n gysylltiedig ag aelodaeth.

- Dechreuodd y gwaith o ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg a chyd-leoli gwasanaethau gan gydnabod gofynion hygyrchedd Newid Lleoedd.

- Lluniwyd calendr Heneiddio'n Dda sy'n cynnwys cyngor ynghylch lles, partneriaethau a gwasanaethau ac mae 4000 o gopïau wedi cael eu dosbarthu.

**Data**

- Mae monitro cydraddoldeb yn dal i gael ei gynnwys ym mhob ymgynghoriad cyhoeddus. Caiff gwybodaeth berthnasol ei rhannu â gwasanaethau i fod o gymorth i lywio eu Hasesiad Effaith ar Gydraddoldeb.

- Yn 2019/2020 fe wnaethom ymgysylltu â thros 18,000 o drigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol drwy amrywiaeth o ymgynghoriadau a sesiynau ymgysylltu.

- Parheir i ofyn i ymatebwyr i ymgynghoriadau cyhoeddus a fyddent yn hoffi cael gwybod am ganlyniadau ymgynghoriadau, a lle y caiff y wybodaeth berthnasol ei rhannu pan fydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i'r cyhoedd.

- Caiff manylion ymgynghoriadau, y canlyniadau a'r camau nesaf eu rhannu ar dudalen ymgynghori gaeedig y wefan.

- O ganlyniad i'r broses gwyno ffurfiol, mae pedair ffurflen monitro cydraddoldeb wedi cael eu prosesu.

- Cesglir data cydraddoldeb ar gyfer pob gweithiwr newydd ac rydym yn parhau i hyrwyddo system hunanwasanaeth y gweithwyr er mwyn annog y staff presennol i gwblhau/diweddaru eu data personol.

- Rhwng mis Chwefror 2019 a mis Mawrth 2020 cynhyrchodd y Cyngor wyth Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn a 68 o sgriniau AEG. Mae adroddiad blynyddol am Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn dal i gael ei gyflwyno i Bwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet.

**4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu**

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, cynhaliodd y Cyngor 12 ymgynghoriad cyhoeddus:

| |
|---|
| Ymgynghoriad adolygu teithio gan ddysgwyr. |
| Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2019. |
| Ymgynghoriad strategaeth cynllun datblygu lleol newydd. |
| Adolygiad o ardaloedd, lleoedd a gorsafoedd pleidleisio. |
| Adolygiad o gaeau chwarae a thorri glaswellt ac ymgynghoriad ynghylch y posibilrwydd o godi taliadau uwch am ddefnyddio meysydd chwaraeon a phafiliynau chwaraeon 2019. |
| Ymgynghoriad Digartrefedd 2019. |
| Ymgynghoriad ynghylch cosbau am droseddau amgylcheddol. |
| Adolygiad addysg ôl-16. |
| Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024. |
| Ymgynghoriad ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG). |
| Ymgynghoriad ynghylch Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a phobl sioeau. |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer Stryd y Parc. |

Anfonwyd yr arolygon canlynol at aelodau Panel y Dinasyddion:

- Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2019

- Adolygiad o gaeau chwarae a thorri glaswellt ac ymgynghoriad ynghylch y posibilrwydd o godi taliadau uwch am ddefnyddio meysydd chwaraeon a phafiliynau chwaraeon 2019
- Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024.

Gwahoddwyd yr Aelodau hefyd i fynychu digwyddiadau Panel y Dinasyddion ar gyfer Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2019 ac Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024 i drafod yr ymgynghoriadau a rhannu eu barn â swyddogion ac Aelodau'r Cabinet.

## 5. Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror 2019 a mis Mawrth 2020, cwblhaodd 18 o weithwyr hyfforddiant AEG drwy e-ddysgu. Hyd yma mae cyfanswm o 225 o weithwyr wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu.

## 6. Trefniadau caffael

Mae meysydd gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm caffael i sicrhau bod Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu hintegreiddio i mewn i'r broses gaffael. Mae cymalau sy'n cynnwys cydraddoldebau, yr iaith Gymraeg, caethwasiaeth fodern a deddfwriaeth cyflogaeth o leiaf wedi eu cynnwys yn rheolau gweithdrefnau contractau. Mae materion cydraddoldeb wedi'u hintegreiddio'n llawn i mewn i'r broses gaffael o'r cam cyn-cymhwyso i ddyfarnu'r contract. Mae'r hysbysiad cydymffurfio â'r Gymraeg wedi'i gynnwys ym mhob contract.

## 7. Gwybodaeth cyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2020 roedd 5824 o weithwyr yn y Cyngor, gan gynnwys y rhai a gyflogir mewn ysgolion. Mae nifer yr unigolion a'r proffiliau oedran yn rhoi dadansoddiad o'r gweithwyr hyn. Fodd bynnag, mae manylion y nodweddion gwarchodedig sy'n weddill yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd yn wirfoddol gan gyflogeion. Felly mae'r ffigurau canrannol yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael fel canran o'r gweithlu cyfan.

| | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel ar 31.03.20** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **Dynion** | **Merched** | **Cyfanswm** | **%** |
| Nifer y gweithwyr | 1190 | 4634 | **5824** | |
| **O'r uchod:** | | | | |
| Llawn amser | 899 | 1611 | **2510** | **43.10%** |
| Rhan-amser | 291 | 3023 | **3314** | **56.90%** |
| | | | | |
| **Anabledd wedi ei ddatgan** | 55 | 127 | **182** | **3.13%** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb gofalwr wedi ei ddatgan** | 37 | 246 | **283** | **4.86%** |
| | | | | |
| **Ethnigrwydd** | | | | |
| Gwyn | 1004 | 4008 | 5012 | 86.06% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 6 | 26 | 32 | 0.55% |
| Du neu Ddu Prydeinig | 2 | 6 | 8 | 0.14% |
| Hil Gymysg | 4 | 16 | 20 | 0.34% |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 2 | 15 | 17 | 0.29% |
| Heb ddatgan | 172 | 563 | 735 | 12.62% |
| | | | | |
| **Siarad Cymraeg** | | | | |
| 'Ychydig' | 166 | 677 | 843 | 14.47% |
| 'Gweddol dda' | 21 | 113 | 134 | 2.30% |
| 'Rhugl' | 44 | 226 | 270 | 4.64% |
| | | | | |
| **Darllen Cymraeg** | | | | |
| 'Ychydig' | 173 | 713 | 886 | 15.21% |
| 'Gweddol dda' | 31 | 133 | 164 | 2.82% |
| 'Rhugl' | 43 | 228 | 271 | 1.65% |
| | | | | |
| **Ysgrifennu Cymraeg** | | | | |
| 'Ychydig' | 128 | 607 | 735 | 12.62% |
| 'Gweddol dda' | 27 | 118 | 145 | 2.49% |
| 'Rhugl' | 38 | 204 | 242 | 4.16% |
| | | | | |
| **Rhywioldeb** | | | | |
| Heterorywiol | 609 | 2414 | 3023 | 51.91% |
| Deurywiol | 5 | 20 | 25 | 0.43% |
| Dyn hoyw | 24 | | 24 | 0.41% |
| Dynes hoyw / lesbïaidd | | 16 | 16 | 0.27% |
| Trawsrywiol | 0 | 0 | 0 | 0.00% |
| Arall | 4 | 12 | 16 | 0.27% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 30 | 109 | 139 | 2.39% |
| | | | | |

| Proffil oedran | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16-19 | 12 | 11 | 23 | 0.39% |
| 20-25 | 55 | 206 | 261 | 4.48% |
| 26-30 | 95 | 385 | 480 | 8.24% |
| 31 - 35 | 121 | 522 | 643 | 11.04% |
| 36 - 40 | 122 | 558 | 680 | 11.68% |
| 41 - 45 | 134 | 632 | 766 | 13.15% |
| 46 - 50 | 167 | 713 | 880 | 15.11% |
| 51 - 55 | 189 | 678 | 867 | 14.89% |
| 56 - 60 | 179 | 530 | 709 | 12.17% |
| 61 - 65 | 75 | 306 | 381 | 6.54% |
| 66 + | 41 | 93 | 134 | 2.30% |
| **Cyfanswm** | **1190** | **4634** | **5824** | |

### 8. Cyflogeion ar 31 Mawrth 2020 yn ôl rhyw a gradd cyflog

Cyflwynwyd ein strwythur cyflogau a graddio ar 1 Medi 2013 ac mae mecanwaith clir a chadarn ar waith ar gyfer gwerthuso graddau cymharol y swyddi. Mae hyn yn seiliedig ar swyddogaethau a chyfrifoldebau yn hytrach nag ar unrhyw ffactorau unigol yn ymwneud â'r cyflogai

| Gradd | Dyn | Dynes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| JE graddau 1 – 8 (£17,364 - £25,295) | 689 | 4361 | **5050** |
| JE graddau 9 – 10 (£26,999 - £31,371) | 103 | 216 | **319** |
| JE graddau 11 – 16 (£32,878 - £51,330) | 153 | 304 | **457** |
| Prif swyddogion (£54,608 - £139,126) | 7 | 7 | **14** |
| Staff Soulbury a Swyddogion Ieuenctid (£20,865 - £64,351) | 8 | 41 | **49** |
| Athrawon, penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol (£17,682 - £114,060) | 334 | 1056 | **1390** |

**DS** Os bydd gan gyflogai fwy nag un swydd, caiff ei gyfrif am bob swydd y mae'n ei dal. Oherwydd hynny, ni fydd y ffigurau uchod yn cydberthyn i gyfansymiau eraill yn yr adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar nifer yr unigolion.

### 9. Ceisiadau am swyddi

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, derbyniodd y Cyngor 7,667 o geisiadau am swyddi drwy system recriwtio Adnoddau Dynol oddi wrth 4,184 o unigolion, yn cynnwys ymgeiswyr mewnol ac allanol. Nid yw'r data yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan rai ysgolion.

Yn rhai achosion, ni ddatganodd yr ymgeiswyr wybodaeth ar gyfer pob nodwedd warchodedig. Mae'r ffigurau canrannol felly yn nodi lefel y diffyg ymateb fel 'Heb Ddatgan' ar gyfer pob nodwedd unigol.

| **Disgrifiad** | **Nifer yr Ymgeiswyr** | **%** |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr gwrywaidd | 1232 | 29.45% |
| Ymgeiswyr benywaidd | 2945 | 70.39% |
| Heb ddatgan | 7 | 0.17% |
| | | |
| **Datganwyd anabledd/:** | 297 | 7.10% |
| | | |
| **Proffil Oedran:-** | | |
| 16 – 25 | 974 | 23.28% |
| 26 – 35 | 1249 | 29.85% |
| 36 – 45 | 922 | 22.04% |
| 46 – 55 | 713 | 17.04% |
| 56 – 65 | 286 | 6.84% |
| 66+ | 14 | 0.33% |
| Heb ddatgan | 26 | 0.62% |
| | | |
| **Tuedd Rywiol** | | |
| Heterorywiol | 3688 | 88.15% |
| Deurywiol | 61 | 1.46% |
| Dyn Hoyw | 44 | 1.05% |
| Dynes Hoyw / Lesbïaidd | 45 | 1.08% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 137 | 3.27% |
| Arall | 23 | 0.55% |
| Heb ddatgan | 186 | 4.45% |
| | | |
| **Statws Priodasol** | | |
| Priod | 1411 | 33.72% |
| Byw gyda Phartner | 743 | 17.76% |
| Partneriaeth yr un Rhyw neu Sifil | 8 | 0.19% |
| Wedi gwahanu/ysgaru | 229 | 5.47% |
| Sengl | 1604 | 38.34% |
| Gweddw | 20 | 0.48% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 44 | 1.05% |
| Heb ddatgan | 125 | 2.99% |
| | | |
| **Hil** | | |
| Gwyn | 3887 | 92.90% |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 64 | 1.53% |

| | | |
|---|---|---|
| Du / Du Prydeinig | 35 | 0.84% |
| Tsieineaidd | 6 | 0.14% |
| Hil Gymysg | 40 | 0.96% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 43 | 1.03% |
| Grŵp ethnig arall | 13 | 0.31% |
| Anhysbys / Heb ddatgan | 96 | 2.29% |

**10. Hyfforddiant Staff**

Mae ein trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant staff corfforaethol yn cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

- **Hyfforddiant ôl-fynediad –** mae cyflogeion yn gofyn am hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth drwy'r polisi hyfforddiant ôl-fynediad. Dim ond ceisiadau y cytunwyd arnynt gan reolwyr llinell a anfonir at adnoddau dynol ac felly ni allwn nodi unrhyw rai a all fod wedi cael eu gwrthod.

- Ni allwn ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhai sy'n derbyn hyfforddiant ôl-fynediad oherwydd, er bod y data'n cael ei gasglu, bod nifer y cyflogeion a swm y data yn rhy fychan inni ei ddehongli mewn ffordd ystyrlon.

- **Hyfforddiant wyneb yn wyneb** – mae'r rhan fwyaf o'n hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i dargedu at weithwyr, yn seiliedig ar natur y swyddogaeth a'r cyfrifoldebau. O'r herwydd, ni wrthodwyd unrhyw geisiadau am yr hyfforddiant hwn.

- **E-ddysgu** – darperir y rhan fwyaf o hyfforddiant corfforaethol drwy e-ddysgu y gall cyflogeion gael mynediad uniongyrchol ato.

Rhydd y tabl isod nodweddion gwarchodedig y gweithwyr hynny a ddefnyddiodd y dull hwn o hyfforddi rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

| **Disgrifiad** | **Wedi cwblhau e-ddysgu** | |
|---|---|---|
| Gwryw | 534 | 17.3% |
| Benyw | 2561 | 82.7% |
| | | |
| **Datganwyd anabledd/:** | 156 | 5.0% |
| | | |
| **Proffil Oedran:-** | | |
| 16 – 25 | 153 | 4.9% |
| 26 – 35 | 656 | 21.2% |
| 36 – 45 | 807 | 26.1% |
| 46 – 55 | 965 | 31.2% |
| 56 – 65 | 485 | 15.7% |
| 66+ | 29 | 0.9% |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Tuedd Rywiol** | | |
| Heterorywiol | 1705 | 55.1% |
| Deurywiol | 14 | 0.5% |
| Dyn Hoyw | 12 | 0.4% |
| Dynes Hoyw / Lesbïaidd | 9 | 0.3% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 66 | 2.1% |
| Arall | 6 | 0.2% |
| Heb ddatgan | 1283 | 41.5% |
| | | |
| **Statws Priodasol** | | |
| Priod | 1438 | 46.5% |
| Byw gyda Phartner | 268 | 8.7% |
| Partneriaeth yr un Rhyw neu Sifil | 6 | 0.2% |
| Wedi gwahanu/ysgaru | 199 | 6.4% |
| Sengl | 736 | 23.8% |
| Gweddw | 24 | 0.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 28 | 0.9% |
| Heb ddatgan | 396 | 12.8% |
| | | |
| **Hil** | | |
| Gwyn | 2690 | 86.9% |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 20 | 0.6% |
| Du / Du Prydeinig | 3 | 0.1% |
| Tsieineaidd | 2 | 0.1% |
| Hil Gymysg | 12 | 0.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 172 | 5.6% |
| Grŵp ethnig arall | 5 | 0.2% |
| Anhysbys / Heb ddatgan | 191 | 6.2% |

Nid oes unrhyw gofnodion yn Adnoddau Dynol ynghylch gwrthod mynediad i hyfforddiant i gyflogeion fel yr amlinellwyd uchod, ac ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn ynglŷn â'r mater hwn ychwaith

## 11. Gwrandawiadau cwyno a disgyblu a gynhaliwyd yn ystod 2019-20

Mae hyn yn cynnwys gweithwyr sydd â rhan mewn gweithdrefnau cwyno fel achwynydd, y gwnaed cwyn yn ei erbyn neu sy'n destun gweithdrefn ddisgyblu. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, ni allwn ddatgelu'r wybodaeth hon. Ym mhob categori, mae nifer y cyflogeion a maint y data yn rhy fychan inni ei ddehongli mewn ffordd ystyrlon.

## 12. Gweithwyr a adawodd y Cyngor yn 2019/20

Mae'r data canlynol yn crynhoi nodweddion gwarchodedig y 728 o unigolion a adawodd gyflogaeth y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae'r data ar

nodweddion gwarchodedig (ac eithrio rhyw ac oedran) yn seiliedig ar wybodaeth a ddatgelwyd yn wirfoddol gan y gweithwyr. Mae'r dadansoddiad canrannol yn seiliedig ar gyfanswm nifer y rhai a adawodd.

| **Disgrifiad** | **Nifer y gadawyr** | **% o'r gadawyr** |
|---|---|---|
| Gweithiwr | 216 | 29.67% |
| Gweithwraig | 512 | 70.33% |
| | | |
| **Datganwyd anabledd/:** | 23 | 3.16% |
| | | |
| **Proffil Oedran:-** | | |
| 16 – 25 | 92 | 12.64% |
| 26 – 35 | 157 | 21.57% |
| 36 – 45 | 148 | 20.33% |
| 46 – 55 | 140 | 19.23% |
| 56 – 65 | 149 | 20.47% |
| 66+ | 42 | 5.77% |
| | | |
| **Tuedd Rywiol** | | |
| Heterorywiol | 462 | 63.46% |
| Deurywiol | 2 | 0.27% |
| Dyn Hoyw | 1 | 0.14% |
| Dynes Hoyw | 1 | 0.14% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 8 | 1.10% |
| Arall | 5 | 0.69% |
| Heb ddatgan | 249 | 34.20% |
| | | |
| **Statws Priodasol** | | |
| Priod | 293 | 40.25% |
| Byw gyda Phartner | 84 | 11.54% |
| Partneriaeth yr un Rhyw neu Sifil | 1 | 0.14% |
| Wedi gwahanu/ysgaru | 49 | 6.73% |
| Sengl | 177 | 24.31% |
| Gweddw | 9 | 1.24% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 6 | 0.82% |
| Heb ddatgan | 109 | 14.97% |
| | | |
| **Hil** | | |
| Gwyn | 619 | 85.03% |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 6 | 0.82% |
| Du / Du Prydeinig | 1 | 0.14% |
| Hil Gymysg | 2 | 0.27% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2 | 0.27% |
| Grŵp ethnig arall | 2 | 0.27% |
| Heb ddatgan | 96 | 13.19% |

## 13. Ymgysylltu ac ymgynghori

Ein nod yw cynnwys barn grwpiau cynrychioliadol yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau fel y gallwn ddatblygu gwasanaethau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac i'n gweithwyr.

Mae ymgysylltu yn rhan bwysig o'n gwaith ni ac felly rydym yn rhoi prosesau penodol ar waith i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth ac yr eir i'r afael â dimensiynau cydraddoldeb.

Mae cyflogeion a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cael rhan mewn cyflwyno, gweithredu, monitro a gwerthuso ein hamcanion.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori ar ganlyniadau ein gweithgarwch ymgysylltu i ddangos yn glir y ffordd y mae pobl wedi dylanwadu ar gynllunio a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 14. Cysylltwch â ni

Pe baech yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol neu gopi o'r Cynllun mewn fformat arall, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda:

Drwy'r e-bost: talktous@bridgend.gov.uk
Dros y ffôn: 01656 643643
Drwy ffôn destun: 18001 01656 643643
Drwy ffacs: 01656 668126
Yn ysgrifenedig: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
Mae ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid ar agor o 8 a.m. hyd 5.30 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Hon yw ein gweithdrefn gwyno